Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo am 7.30 p.m. ar ddydd Mercher, 28ain Medi 2005.

Presennol: Maer Cyng Colin Jenkins
Cyng Mrs Fran Murphy
Cyng Ros Bellamy
Cyng Roy Davies
Dirprwy Faer Hugh Towns
Cyng Richard Wallace
Cyng Pam Steane Price
Mr. Des Davies (Swyddog Technegol)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)

Yn Mynychu : Cynghorydd Sir Ieuan Jones; Rhingyll yr Heddlu Neil Jones.

Ymddiheuriadau: Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Paul Faulkner

Cyn dechrau'r cyfarfod cafwyd anerchiad i aelodau gan Miss Emma Pretty ar ei thaith diweddar i Jambori Rhyngwladol y Geidiau yn Denmarc.

Materion yr Heddlu: Adroddodd y Rhingyll Neil Jones mai ychydig iawn o ddigwyddiadau oedd yna o bwys. Doedd yna ddim adroddiadau o fwrgleriaeth dros y ddau fis diwethaf. Hefyd wnaeth ymdrin â chwestiynau parthed tagfeydd traffig yn y Dref.

6595/ Medi / 05 Cofnodion Blaenorol

1. Cymeradwywyd ac arwyddwyd Cofnodion o gyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor ar ddydd Mercher 27ain Gorffennaf 2005 fel cofnod cywir o'r cyfarfod ynghyd â'r diwygiadau canlynol :
   Cofnod 6573 – Talu cyflogau mis Gorffennaf i staff - £ 936.20
   Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace.
   Cofnod 6581/Gorffennaf/05 Gohebiaeth – newid i Cof 6582 /Gorffennaf / 05
   Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns
2. Darllenwyd a derbyniwyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 14eg Medi 2005. Cynigiwyd gan y Cyng Fran Murphy ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies.

3. Darllenwyd a derbyniwyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, 14eg Medi 2005 yn Neuadd y Sir ynghyd â'r diwygiad canlynol :

   Cofnod 6583 – Anfoneb y Maer i'w ad-dalu am 17 o westeion i'r Cinio Blynyddol

   Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns, eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy.

6596/ Medi / 05/ Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol

1. **Hysbysfwrdd –** (*Cof 6562/Gorffennaf/05*

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Roedd Mr Nigel Williams yn anfodlon ailosod yr hysbysfwrdd ar wal ei eiddo. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Sir Ieuan Jones yn cael gair gyda Mr. Williams gan fod y bwrdd yn lle pwysig o ran rhannu gwybodaeth i'r cyhoedd.
Hefyd dylid siarad â Mr Roger Morris o CSC er mwyn dod o hyd i le arall ar gyfer gosod y bwrdd os oedd rhaid. Awgrymwyd wal y bloc toiledau fel lle posib.

2. **Neuadd Ddinesig –** *(Cof 6579 /Gorffennaf / 05)*
Mae grant er mwyn ail-wneud y Cegin wedi'i dderbyn.

3. **Cynllunio –** (*Cof 6591 / Medi / 05)*
E/10119 – Mae'r uchder wedi'i leihau, archwilio a'i gymeradwyo.

6597/ Medi / 05 Dogfen drafod parthed datblygiadau yn y Dref yn y dyfodol

Yn dilyn argymhelliad o Gofnod 6592/Medi / 05
Cytunwyd yn unfrydol y dylid gofyn i'r Clerc ysgrifennu at holl fudiadau'r Dref yn gofyn am eu barn ar y ddogfen. Bydd y Cyng Ros Bellamy hefyd yn anfon copïau at unigolion sydd â diddordeb. Copïau i'w gosod ar yr hysbysfwrdd ac ar dudalen newyddion y wefan er mwyn i unigolion gael ymateb.
Tynnodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones sylw'r Cyngor fod yna gyfarfod Cyhoeddus wedi'i drefnu ar gyfer Tachwedd 17eg ar y mater "Sut i leddfu'r traffig trwm a sut fydd y Dref yn tyfu ?"
Adroddir yn ôl amdano fel eitem ar Agenda'r Pwyllgor Cynllunio ym mis Tachwedd.

6598 / Medi / 05 Cwrs Anghenion Hyfforddiant i Gynghorwyr

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Cyngor Sir Caerfyrddin i ofyn a fyddant yn trefnu diwrnod o hyfforddiant i Gynghorwyr. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace

6599 / Medi / 05 Materion Ariannol

Cytunwyd yn unfrydol i osod Archwiliad 2005 ar yr agenda ar gyfer Cyfarfod Llawn o'r Cyngor ym mis Hydref.

6600 / Medi / 05 Adroddiad y Maer

Rhoddodd y Maer adroddiad o'r cyfarfodydd a digwyddiadau y mae wedi eu mynychu ar ran y Cyngor. Yn arbennig talodd deyrnged i'r cymorth a chefnogaeth a roddwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wrth iddynt gynnal y cyngherddau diweddar yn Nhŷ'r Drenewydd.

6601 / Medi / 05 Y Prosiect Treftadaeth

Mae'r cais am grant i'w rannu'n ddwy elfen
a) Y cyllid Refeniw ar gyfer y dylunio i'w brosesu cyn Ebrill 2006 a
b) Yr arian Cyfalaf i'w gyflwyno wedi Ebrill 2006
Aled Davies o'r Fenter Iaith i wneud cais i Fwrdd yr Iaith Gymraeg am grant tuag at gostau cyfieithu.

6602 / Medi / 05 Prosiect yr Ardd

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Gofynnwyd i'r Swyddog Technegol i archwilio i fesurau diogelwch dros dro sydd angen eu gwneud ar y stepiau. Mae'r rhaglen waith dros y gaeaf wedi'i rhannu'n bedair rhan

i) Gwella mynediad.
ii) Arolygon
iii) Plygu perthi
iv) Llawfeddygaeth Coed

Y gobaith yw cyflawni'r gwaith erbyn diwedd y flwyddyn.
Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy.

6603 / Medi / 05 Prosiect Neuadd y Sir

Mae'r Maer, Cyng Colin Jenkins a Cyng Hugh Towns wedi cwrdd â Mr Gwilym Hughes er mwyn trafod y cynnydd. Mae Cambria bellach wedi cwblhau prynu eiddo yn Stryd Caerfyrddin. Y gobaith oedd y byddai rhywfaint o le swyddfa ar gael i'r Cyngor yn ystod Hydref. Bydd ystafell bwyllgor fechan hefyd ar gael. Cyflwynir y ffurflenni cais am grant ym mis Ebrill. Cytunwyd yn unfrydol y dylid cynnig wyth o gadeiriau Ynad i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar Fenthyciad Parhaol. Angen cysylltu â Mr Paul Faulkner.

6604 / Medi / 05 Diweddariad ar y Wefan.

Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Cyng Pam Steane Price, Cyng Ros Bellamy a'r Clerc er mwyn cadarnhau trefniadau

6605 / Medi / 05 Yr Arddangosfa Tân Gwyllt

Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans St Ioan yn gofyn iddynt fod yn bresennol yn y digwyddiad. Roedd Mr. Geraint Price wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn amcangyfrif o £ 1800 am hysbysebion yn y rhaglen. Hefyd mae'n trefnu i bosteri gael eu hargraffu. Mae'r clwb rygbi yn trefnu stondin "cŵn poeth' ac fe fydd yna reidiau ffair i blant. Nid yw cae yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a ddefnyddir fel arfer ar gyfer parcio ar gael.

6606 / Medi / 05 Goleuadau Nadolig

Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Cyng Colin Jenkins, Cyng Hugh Towns a'r Swyddog Technegol i drafod y digwyddiad yn ystod yr wythnos sydd i ddod.

Gohiriwyd Rheol Sefydlog Rhif 6 er mwyn dod â busnes y Cyngor i ben.

Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns.

6607 / Medi / 05 Gohebiaeth

1. Cofebau. Cytunwyd yn unfrydol y dylid cwblhau'r prosiectau sydd eisoes ar waith cyn ystyried unrhyw rai eraill.
2. Eisteddfod yr Urdd – Llythyron o gefnogaeth i'w hanfon at bwyllgor Llanymddyfri.
3. Cyfarfod Rhwydwaith – Cyfarfod nesaf – 13eg Hydref yn y Neuadd Ddinesig.
4. Prosiect Gospels Llandeilo Fawr – Llythyr o ddiolch am gefnogaeth y Cyngor.
5. Cylchlythyr Un Llais Cymru – nodwyd.
6. "Carmarthenshire Nightstop" – nodwyd
7. GillWright – hysbysiad o ymweliad i'r Dref gan Weinidog o'r Cynulliad Cenedlaethol - nodwyd

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

8. Lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd o'r Rhwydwaith Cymunedol - nodwyd
9. Panel Beirniadaeth i Gymru – nodwyd
10. Adroddiad Blynyddol Cyngor Iechyd Caerfyrddin /Dinefwr – nodwyd
11. Oriau agor y Swyddfa Bost - nodwyd
12. Gwobrau Personoliaeth Chwaraeon Sir Gaerfyrddin - nodwyd
13. Pwyllgor Safonau'r Cynulliad Cenedlaethol – nodwyd
14. Torri porfa ym Mharc Le Conquet – trosglwyddo i CSC
15. Cynllun datblygu CSC ar gyfer Cartrefi Gofal – nodwyd

6608 / Medi / 05 Dyddiadau cyfarfodydd Rhagfyr

Cytunwyd yn unfrydol y dylid cynnal un cyfarfod ar Ragfyr 14eg yn Swyddfeydd y Cyngor. Bydd y Cyng Colin Jenkins a Cyng Hugh Towns yn drafftio'r agenda.

6609 / Medi / 05 Materion nad oes angen penderfyniad

Mynegodd y Cyng Pam Steane Price y dylai defnyddwyr a grwpiau cymunedol fod wedi eu cynnwys yn y gwaith o wella Parc Le Conquet.

Adroddodd y swyddog technegol fod Mr Thomas o Fferm Glyn Ceirch yn cytuno i'r gwaith o ddraenio'r llwybr troed ar ei dir heb unrhyw gost iddo.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40pm

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk